**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

# Ymchwiliad i fynediad i ddwr mewndirol yng Nghymru

Mehefin 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: sustainability.comm@wales.gsi.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

# Ymchwiliad i fynediad i ddwr mewndirol yng Nghymru

Mehefin 2010

**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

Penodir y Pwyllgor Cynaliadwyedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion sy'n effeithio ar Newid yn yr Hinsawdd, Ynni, Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Chynllunio

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

**Aelodaeth y pwyllgor**

| *Aelod o'r Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Joyce Watson | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Irene James | Llafur | Islwyn |
| Leanne Wood | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Angela Burns | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Karen Sinclair | Llafur | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brynle Williams | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Cymru |

**Roedd yr Aelod(au) a ganlyn hefyd yn aelod(au) o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:**

| | | |
|---|---|---|
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Sir Drefaldwyn |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lesley Griffiths | Llafur | Wrecsam |

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... **6**

**1. Cyflwyniad** .......... **8**

Cefndir .......... 8

Y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru .......... 10

Y sefyllfa gyfreithiol yng Nghymru .......... 11

Casglu tystiolaeth .......... 14

**2. Y materion i Gymru** .......... **15**

Cynaliadwyedd y sefyllfa sydd ohoni .......... 15

Effaith defnyddio dŵr ar yr amgylchedd .......... 17

Rôl cytundebau gwirfoddol .......... 18

Ariannu mynediad, gwaith cynnal a chadw a gwaith amgylcheddol i ddŵr mewndirol ac ar hyd-ddo .......... 20

Safon ac argaeledd gwybodaeth am ddefnydd dŵr .......... 22

Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 .......... 23

**3. Casgliadau ac argymhellion** .......... **24**

Cytundebau mynediad .......... 25

Argymhellion .......... 25

Yr hyn y gellir ei wneud nawr .......... 26

Argymhellion ar gyfer atebion tymor canolig a hir .......... 28

Buddion .......... 31

**Atodiad A** .......... **32**

**Tystion** .......... **36**

**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **39**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae ein hamgylchedd naturiol yn un o asedau mwyaf gwerthfawr Cymru. Rydym wedi ein bendithio ag arfordir trawiadol, mynyddoedd mawreddog a chefn gwlad godidog. Mae miloedd o ymwelwyr sy’n dod i’n gwlad bob blwyddyn, yn ogystal â phobl Cymru, yn mwynhau’r asedau hyn. Mae’r ymchwiliad hwn, a ddeilliodd o ddeiseb oddi wrth Canŵ Cymru, yn edrych ar hawliau pobl i gael mynediad i un o’n hasedau naturiol gwerthfawr, sef dŵr mewndirol.

Roeddem yn ymwybodol, o ddechrau’r ymchwiliad, ynglŷn â’r agweddau sensitif ar y materion y buom yn edrych arnynt ac rydym wedi ceisio, gydol yr ymchwiliad, sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn y materion sy'n ymwneud â mynediad i ddŵr mewndirol yn cael cyfle teg a chyfartal i gyfleu eu barn i ni. Gwnaethom gytuno ar ddechrau’r ymchwiliad bod yn rhaid i ni edrych ar yr holl dystiolaeth a roddir i ni mewn modd gwrthrychol a diduedd a pheidio â dod i’r ymchwiliad ag unrhyw ragdybiaethau.

Bu hwn yn ymchwiliad anodd iawn i’w gwblhau oherwydd y materion cymhleth mae’n eu codi. Rydym wedi cymryd bron i ddeuddeg mis i sicrhau bod ein hargymhellion yn deg ac yn ddichonol a’n bod hefyd yn darparu ateb tymor hir i’r materion a godwyd.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i’r ymchwiliad a’ch sicrhau bod eich cyflwyniad wedi’i ystyried fel rhan o’r dystiolaeth.

Nid yw’n bosibl plesio pawb a roddodd dystiolaeth. Bydd rhai, o bosibl, o'r farn nad ydym wedi mynd yn ddigon pell, a bydd eraill o’r farn ein bod wedi mynd yn rhy bell. Fodd bynnag, rydym yn ceisio atebion a fydd yn dal eu tir ac rydym o’r farn bod y 13 argymhelliad rydym wedi’u gwneud yn cynnig ateb i’r materion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad. Mae hi nawr i fyny i’r Gweinidog benderfynu sut bydd Llywodraeth Cymru’n bwrw ymlaen â nhw.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn annog ac yn hybu'n gryf sefyllfa lle mae tirfeddianwyr yn sefydlu cytundebau mynediad gwirfoddol. Dylai wneud hyn trwy'r grŵp 'o Amgylch y Bwrdd' sy'n bodoli o fuddiannau gweithgareddau dŵr, a mynd ati i annog tirfeddianwyr fel cyrff cyhoeddus (e.e. y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol) ac elusennau mawr (e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) i dreialu'r math o gytundebau mynediad a amlinellir yn yr adroddiad hwn. **(Tudalen 26)**

**Argymhelliad 2.** Bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai'n sicrhau bod arian Sblash yn targedu'r prosiectau peilot hyn. Dylid monitro effeithiau'r prosiectau peilot hyn yn agos a lledaenu'r deilliannau'n eang. **(Tudalen 27)**

**Argymhelliad 3.** Y ceisir cytundebau mynediad dan gynllun Glastir lle bo'n briodol ar gyfer mannau i fynd i mewn ac allan, unrhyw gyfleusterau cysylltiedig fel meysydd parcio a chyfleusterau newid a mynediad dros dir i unrhyw gorff o ddŵr mewndirol y mae hawliau mynediad wedi'u caniatáu drosto neu arno. **(Tudalen 27)**

**Argymhelliad 4.** Yn achos pob cytundeb mynediad, dylid monitro ac asesu ansawdd amgylcheddol y dŵr y mae'r cytundeb yn berthnasol iddo'n rheolaidd. **(Tudalen 28)**

**Argymhelliad 5.** Dylid cyflwyno deddfwriaeth i ddynodi awdurdod arweiniol a fydd yn gyfrifol am ddynodi ardaloedd penodol o ddŵr mewndirol lle mae cytundebau mynediad yn briodol ac i drafod telerau cytundebau mynediad gwirfoddol at ddibenion hamdden heb ddefnyddio moduron yn yr ardaloedd hynny. Rhoddir dyletswydd bositif i'r corff hwnnw hwyluso mwy o gytundebau mynediad gwirfoddol, gan gynnwys pŵer i ariannu gwaith cysylltiedig. **(Tudalen 28)**

**Argymhelliad 6.** Dylai'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn argymhelliad 5 hefyd roi pŵer i awdurdod arweiniol ddynodi cyrff o ddŵr o'r fath fel

rhai y byddai hawliau mynediad gorfodol yn berthnasol iddynt os na lwyddwyd i ddod i gytundeb gwirfoddol. **(Tudalen 28)**

**Argymhelliad 7.** Er mwyn gwarantu cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, byddai angen hawl i wrthwynebu dynodiad a hawl i ystyriaeth fanwl o'r gwrthwynebiad (e.e. mewn ymchwiliad) a byddai angen darpariaeth ar gyfer iawndal am ymyrraeth orfodol ag eiddo (gan gynnwys hawliau pysgota) lle gellid dangos bod yr ymyrraeth honno wedi achosi colled. **(Tudalen 29)**

**Argymhelliad 8.** Rydym yn cydnabod nad oes gan Weinidogion Cymru na'r Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i weithredu argymhellion 5-7 ac rydym yn argymell bod cymhwysedd deddfwriaethol o'r fath yn cael ei geisio cyn gynted â phosibl. **(Tudalen 29)**

**Argymhelliad 9.** .Y dylai sefydliadau sy'n gwneud elw o hamdden cysylltiedig a dŵr dalu ffi i gael eu trwyddedu ac y dylai eu cwch fod wedi'i gofrestru a'i farcio'n eglur. **(Tudalen 29)**

**Argymhelliad 10.** Y dylid cyflwyno system drwyddedu ar gyfer y rheini sy'n defnyddio cychod heb fotor ar ddŵr mewndirol. **(Tudalen 30)**

**Argymhelliad 11.** Bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn dechrau'r broses o ddrafftio cod ymddygiad cenedlaethol ar gyfer defnyddio dŵr ac yn ymgynghori arno, i'w ddefnyddio yn yr ardaloedd hynny lle caniateir mynediad. **(Tudalen 30)**

**Argymhelliad 12.** Y dylai unrhyw god ymddygiad fanylu'n eglur ar hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr a pherchenogion mynediad ac y dylai pob sefydliad sydd a wnelo â chaniatáu neu ddefnyddio mynediad i ddŵr mewndirol, yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol fel Llywodraeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Croeso Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, ei hybu a'i hysbysebu. **(Tudalen 30)**

**Argymhelliad 13.** Y dylid sefydlu gwefan genedlaethol yn cynnwys manylion am yr holl ddarnau o ddŵr yng Nghymru lle cytunwyd ar fynediad, ac yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am lefelau dŵr cyfredol a disgwyliedig, digwyddiadau sy'n mynd rhagddynt a allai gyfyngu ar fynediad ac unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n helpu defnyddwyr i gyrchu'r dŵr yn ddiogel ac yn gyfreithlon. **(Tudalen 31)**

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn oherwydd deiseb a gyflwynwyd i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad gan Undeb Canŵio Cymru (sef Canŵ Cymru bellach)

2. Ar 24 Ebrill 2008, trafododd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad ddeiseb oddi wrth Gymdeithas Canŵio Cymru (sef Canŵ Cymru bellach)[1] yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cyfreithiau newydd:

> "Anogir Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried a gweithredu Mesur er lles Cymru a fyddai'n cadw hawliau mynediad a chyfrifoldebau'r cyhoedd at adnoddau naturiol ac ar eu hyd yn yr un modd ag y mae'r Scottish Land Reform Act yn annog defnydd cydweithredol o'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden iach, llai heriol.
>
> Mae'n rhaid i'r mesur hwn ddarparu a chaniatáu mynediad at ddŵr di-lanw ac ar ei hyd yn wyneb y diffyg enfawr mewn eglurder cyfreithiol a'r cyfyngiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, sy'n gweithredu fel rhwystr i chwaraeon a gweithgareddau hamdden a hyrwyddiad Cymru fel lle i ddod ar gyfer Twristiaeth Antur."

3. Ar ôl derbyn ymateb oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai[2] yn datgan:

> "The Welsh Assembly Government is keen to promote wider public access to Wales' extensive inland waters (rivers, lakes, canals and reservoirs) for healthy recreation. I believe there is scope for these resources to be used more widely by the public – and on a responsible and sustainable basis – with consequent benefits for local communities and visitors to Wales in terms of improved recreation opportunities.

---

[1] http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-118.htm

[2] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-pc-home/bus-committees-third-pc-agendas/pet_3_-10-08_p2a_-e-updates_to_previous_petitions.pdf?langoption=3&ttl=PET%283%29-10-08%20%3A%20Paper%2002A%20%3A%20Annexes%20to%20Paper%202%20%28PDF-395KB%29

> However, the existing legal position on access to rivers in particular is complex, with much enshrined in common law. Rather than pursue legal options, therefore, the Welsh Assembly Government is seeking to make progress here via consensus-building and via practical action."

Penderfynodd y pwyllgor y byddai'n cynnal ymchwiliad i destun y ddeiseb, â'r bwriad o drosglwyddo canlyniadau'r ymchwiliad i un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad iddynt fynd ar drywydd llwybr deddfwriaethol posibl. Dyma oedd y tro cyntaf roedd y Pwyllgor Deisebau wedi cynnal ymchwiliad i un o'i ddeisebau. Parhaodd yr ymchwiliad am ryw dri mis ac, yn ogystal â chymryd tystiolaeth oddi wrth randdeiliaid yng Nghymru, ymwelodd y Pwyllgor â'r Alban i gymryd tystiolaeth oddi wrth Weithrediaeth yr Alban a hefyd oddi wrth randdeiliaid yn yr Alban.

4. Cyhoeddodd y Pwyllgor Deisebau ei adroddiad ym mis Ebrill 2009,[3] gan wneud yr argymhellion a ganlyn:

> "**Argymhellwn** y dylid cynnal ymchwiliad pellach ac ehangach gyda'r nod o gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn, Byddai hynny'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth.
>
> **Argymhellwn** y dylai unrhyw ymchwiliad craffu llawn ystyried cyflwyno cod gorfodol er mwyn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Byddai hynny'n golygu bod modd rheoli a rheoleiddio hawl mynediad newydd i ddŵr mewndirol yng Nghymru, a dylid ceisio datblygu system i allu adnabod defnyddwyr rheolaidd."

Yna trosglwyddwyd y darganfyddiadau a'r argymhellion i Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad i benderfynu a oeddent am roi sylw i'r mater ai peidio ac, os felly, sut.

5. Penderfynodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 3 Mehefin 2009 y byddent yn cynnal ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru. Fodd bynnag, cytunwyd:

> "…..we should start with a totally fresh approach to this matter. We should not start with the Petitions Committee's

---

[3] Adroddiad Ymchwiliad Byr y Pwyllgor Deisebau i Fynediad ar hyd Dŵr Mewndirol – Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol – Ebrill 2009 - http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-pc-ome/pet3_listofinquiries/canoeing_inquiry.htm

> recommendations—in holding an inquiry into this issue, we should start from scratch, with a blank page".[4]

6. Cytunodd y pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

Astudio'r sefyllfa bresennol o ran mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru a gwneud argymhellion yn ei gylch.

## Y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru

7. Mae adroddiad oddi wrth Brifysgol Brighton[5] a gomisiynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n datgan bod yna oddeutu 6107km o gamlesi ac afonydd yng Nghymru ac oddeutu 8501ha o ddŵr caeedig (llynnoedd, pyllau a chronfeydd dŵr). O'r rhain, mae'r adroddiad yn awgrymu bod 328km o afonydd a chamlesi'n gyfreithiol fordwyadwy (gan gynnwys 56km o afon Gwy ac afon Wysg y mae cytundeb mynediad gwirfoddol yn berthnasol iddynt).

8. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at y graddau y mae 'hamdden cysylltiedig â dŵr' (WRR) yn defnyddio dŵr mewndirol yng Nghymru[6]

> "At least one of the many WRR activities takes place on the vast majority (97-98%) of canals, coasts and estuaries in Wales. The use of rivers and enclosed waters is considerably lower. WRR activities occur on 71% of the total river length but only 4% of the length has a right of navigation and a further 2% is covered by signed or pilot canoe access agreements. Only 59% of the area of enclosed waters is used and this space is mainly on larger lakes and reservoirs."

9. Mae'r dystiolaeth hon yn dwyn sylw at y problemau sy'n wynebu pobl sydd am ddefnyddio dŵr mewndirol yng Nghymru ar gyfer canŵio neu rafftio – gallant wneud hynny'n gyfreithiol ar 6% yn unig o gyfanswm hyd afonydd ac ychydig dros hanner o'r dŵr caeedig.

---

[4] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas/sc20090603qv_-_sc_3_-10-09.pdf?langoption=3&ttl=SC%283%29-10-09%20%3A%20Transcript%20%28PDF%2C%20253KB%29

[5] A Strategic Plan for Water Related Recreation in Wales – Prifysgol Brighton 2008. **http://www.brighton.ac.uk/waterrecreation/files/wales_plan.pdf**

[6] Diffinnir gweithgareddau hamdden cysylltiedig â dŵr (WRR) yn y cynllun hwn fel y rheini (gweithgareddau chwaraeon a hamdden) sy'n defnyddio adnoddau dŵr awyr agored naturiol ac artiffisial yn uniongyrchol

10. Dygodd adroddiad gan Brifysgol Swydd Gaerloyw[7] a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) sylw hefyd at y cynnydd yn y galw am hamdden cysylltiedig â dŵr yng Nghymru.

> "Increased leisure time and technological developments have both made water based recreational activities accessible to a wider population.........Increased numbers, new activities and extended range of existing activities brings with it conflict over a limited resource."

11. Mae'r un adroddiad hefyd yn dwyn sylw at y ffaith bod Cymru a Lloegr bron â bod yn unigryw yn Ewrop lle, yn y mwyafrif o wledydd, mae yna hawl arferedig neu statudol i gael mynediad ar gyfer pysgota, rhwyfo a gweithgareddau eraill.

12. O ran hawliau mynediad, rydym yn edrych ar ddau fater yn y adroddiad hwn:

- mynediad ar hyd neu ar ddŵr mewndirol; a
- mynediad i ddarnau o ddŵr mewndirol

Mae angen y ddau ohonynt ar gyfer hamdden cysylltiedig â dŵr ond sydd â materion gwahanol yn gysylltiedig â nhw.

## Y sefyllfa gyfreithiol yng Nghymru

13. Hawliau Cyhoeddus yw'r hawliau hynny y gall unrhyw un eu harfer. Yn ôl disgrifiad y Llysoedd o'r hawl mordwyo, dywedir mai hawl ydyw i groesi ac ailgroesi lled a dyfnder cyfan o ddŵr, a hawliau cysylltiedig i lwytho a dadlwytho.[8]

14. Mae hawl mordwyo cyhoeddus yn berthnasol i'r holl ddyfroedd sydd â llanw ac sy'n fordwyadwy.

15. Mae'r sefyllfa o ran dyfroedd heb lanw'n wahanol. Nid yw'r hawl mordwyo cyhoeddus sy'n bodoli ar ddyfroedd llanw'n berthnasol i ddyfroedd heb lanw ac, o'r herwydd, nid oes unrhyw hawl mordwyo cyhoeddus gyffredinol dan y gyfraith gyffredin ar afonydd sydd heb lanw nac ar lynnoedd mewndirol.

---

[7] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas.htm?act=dis&id=137873&ds=7/2009

[8] Tate & Lyle Industries Ltd –v- Cyngor Llundain Fwyaf (1983) 2 AC 509 at 537

16. Mae'r tir o dan afonydd heb lanw'n perthyn i'r perchenogion glannau afon, ac mae'r tir o dan lynnoedd mewndirol yn perthyn i'r perchenogion cyffiniol.

17. Perchennog glan afon sy'n berchen ar y tir sy'n ffinio dŵr, a'r rhagdybiaeth gyffredinol yw bod perchnogaeth gwely afon neu nant heb lanw'n perthyn mewn hanerau cyfartal i berchenogion y tir sy'n ffinio'r dŵr. Mae'r rhagdybiaeth hon yn berthnasol p'un a yw'r afon yn fordwyadwy ai peidio. Nid yw perchennog glan afon yn berchen ar y dŵr ond mae'n berchen ar yr hawl i unrhyw bysgod sy'n cael eu dal pan mae'n berchen ar y tir o dan y dŵr.

18. Er gwaethaf y rheol gyffredinol, gall hawl mordwyo cyhoeddus fodoli yn achos afonydd heb lanw a llynnoedd mewndirol, a chadarnheir bodolaeth yr hawl trwy dystiolaeth sy'n debyg i'r hyn sy'n ofynnol i gadarnhau hawl tramwy cyhoeddus dros dir.

19. Gall hawl o'r fath godi'n fwyaf cyffredin trwy:

- Ddefnydd Cyn Cof;
- Deddfau Seneddol neu Orchmynion a wnaed dan Awdurdod Deddf Seneddol;
- caniatâd neu rodd datganedig perchennog y tir o dan yr afon.

20. Nid oes gan y cyhoedd unrhyw hawl gyffredin i bysgota mewn dyfroedd heb lanw hyd yn oed os yw dyfroedd o'r fath yn digwydd bod yn fordwyadwy. Fel yr eglurwyd o'r blaen, byddai'r perchenogion glannau afon yn berchen ar yr hawl i fynd â'r pysgod oni bai y byddent yn gwerthu hawliau o'r fath. Hefyd, mae'n rhaid cael cytundebau prydlesu a thrwyddedu ar gyfer hawliau o'r fath.

21. Mae'n bosibl bod pysgodfa'n cynnwys hawliau yn y tir o dan y dŵr, ond nid oes yn rhaid i hyn fod yn wir.

22. Oni bai bod hawl mordwyo cyhoeddus yn bodoli, neu oni bai bod perchennog gwely'r afon, a/neu berchennog yr hawliau pysgota lle bo'n briodol, wedi rhoi caniatâd, yna mae unrhyw un sy'n teithio ar hyd y darn o ddŵr yn tresmasu.

23. Mae mynediad dros dir i alluogi mynediad i'r dŵr yn ystyriaeth hanfodol ond, gan fod y sefyllfa gyfreithiol o ran perchnogaeth tir a hawliau tramwy cyhoeddus wedi'i derbyn, yn gyffredinol, a gan fod

mwy o bobl yn gyfarwydd â hi, nid yw'r Pwyllgor wedi manylu ar y sefyllfa yn y papur hwn.

24. Ar hyn o bryd, mae yna rywfaint o ddeddfwriaeth yn bodoli a allai hwyluso mynediad cyhoeddus i ddŵr mewndirol.

25. Dan Adran 64 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, gall Awdurdodau Lleol drafod telerau mynediad cyhoeddus i ddŵr a thir preifat a ddaw o fewn diffiniad 'gwlad agored', [9] fel rheol yn gyfnewid am gydnabyddiaeth. Gall Awdurdodau Lleol wneud Gorchmynion Mynediad, dan Adran 65 y Ddeddf (cyn belled ag y ceir cadarnhad gweinidogol) lle mae'n ymddangos i'r awdurdod na fyddai'n ymarferol gwneud cytundeb mynediad.

26. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'n ymddangos na fu rhyw lawer o fynd ar y darn hwn o ddeddfwriaeth, ac mae adroddiad gan Brifysgol Brighton yn dweud:

> "In practice, agreements have been difficult to make, even in areas where they have been relatively well received, such as the Peak District (Peak District National Park Authority 1998). Despite this, few orders have been made. By 1989, the area of land subject to access agreement totalled only 35 000 hectares, more than half of which were in the Peak District. Parker and Ravenscroft (1999) assert that this figure has changed little over the past 10 years. Notwithstanding specific provisions for access agreements and orders over water contained in the Countryside Act 1968, there is little evidence of such mechanisms being used to improve access to inland water."

27. Dan Adran 16 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, gall tirfeddianwyr ganiatáu mynediad cyhoeddus i'w tir (sy'n cynnwys tir o dan ddŵr). Fodd bynnag, byddai angen llacio neu ddileu'r cyfyngiadau yn Atodlen 2 (sy'n cynnwys cyfyngu ar ddefnyddio cwch neu hwylfwrdd ar unrhyw ddŵr heb lanw) neu ni fyddai defnyddwyr hamdden ar eu hennill o ddŵr a roddir dan adran 16. Mae rhodd o'r fath, fodd bynnag, yn dibynnu ar ewyllys da'r tirfeddiannwr.

28. Tra bo Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 hefyd wedi'i defnyddio i wneud, er enghraifft, Gorchymyn Mordwyo Gwy 2002, ni fwriedir y ddeddfwriaeth i'w defnyddio fel modd cyffredinol o hwyluso mynediad cyhoeddus i ddŵr mewndirol.

---

[9] 'mountain, moor, heath, down, cliff or foreshore' (gweler adran 59(2)).

## Casglu tystiolaeth

29.O ddechrau'r ymchwiliad, cytunodd y pwyllgor

> "everybody who is interested in this matter has a right to give evidence, and to feel that we have listened to what they have to say, even if they do not agree with our conclusions in the end. …… It will take time, because there is a lot of evidence to get through, and many people will want to give evidence".[10]

30.Yn ogystal â'n modd arferol o gasglu tystiolaeth, sef galw am dystiolaeth ysgrifenedig a chynnal sesiynau tystiolaeth lafar, cafodd y pwyllgor gyfarfod yn Sioe Frenhinol Cymru hefyd, a chynhaliodd sesiynau cyfweliadau byr ac anffurfiol ar fws y Cynulliad lle gallai'r cyhoedd gofnodi eu barn.

31.Cawsom nifer mawr o ymatebion ysgrifenedig (491 wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan) a gyrhaeddodd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a rhyw 100 arall a gyrhaeddodd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben (felly ni wnaeth y pwyllgor eu hystyried). Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yn y llythyr ymgynghori i'w gweld yn Atodiad A.

32.Ymwelodd cyfanswm o 215 o bobl â bws y Cynulliad ym Metws-y-coed, Wrecsam, Caerfyrddin a Merthyr Tudful a chofnododd 185 o bobl negeseuon ar gyfer y pwyllgor.

33.Cynhaliodd y pwyllgor 8 sesiwn tystiolaeth lafar gan gymryd tystiolaeth oddi wrth academyddion, asiantaethau llywodraeth, cynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr dŵr a'r Gweinidogion dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Materion Gwledig a Threftadaeth.

---

[10] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas/sc20090603qv_-_sc_3_-10-09.pdf?langoption=3&ttl=SC%283%29-10-09%20%3A%20Transcript%20%28PDF%2C%20253KB%29

## 2. Y materion i Gymru

34. Er i'r pwyllgor dderbyn nifer mawr o gyflwyniadau ysgrifenedig a thystiolaeth lafar, nifer bach yn unig o faterion a gododd o'r dystiolaeth:

- cynaliadwyedd y sefyllfa sydd ohoni;
- effaith defnyddio dŵr ar yr amgylchedd;
- rôl cytundebau gwirfoddol;
- ariannu mynediad, gwaith cynnal a chadw a gwaith amgylcheddol i ddŵr mewndirol ac ar hyd-ddo;
- safon ac argaeledd gwybodaeth am ddefnydd dŵr.

### Cynaliadwyedd y sefyllfa sydd ohoni

35. Roedd mwyafrif y dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu nad oedd y sefyllfa sydd ohoni'n foddhaol i lawer o'r rheini a oedd yn berchen ar wely afon, neu a oedd â hawliau arno, nac i'r rheini a oedd yn defnyddio'r dŵr.

36. Yn eu tystiolaeth i'r pwyllgor, cydnabu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru fod yna alw mawr am fynediad i ddŵr yng Nghymru at ddibenion hamdden o fathau amrywiol, ac nad yw'r cyflenwad yn ateb y galw hwnnw mewn rhai ardaloedd.

37. Mae yna dystiolaeth fod y galw am fynediad wedi cynyddu yn ystod blynyddoedd diweddar, ac y gallai'r cynnydd barhau yn y dyfodol agos.

38. Mae hyn wedi arwain at gynnydd canfyddedig yn y gwrthdaro rhwng gweithgareddau hamdden sy'n cystadlu, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn sgil cytundebau gwirfoddol yn methu ac anghydfodau ynglŷn ag eglurder y gyfraith o ran mynediad i ddŵr mewndirol.

39. Nid ydym, fodd bynnag, yn ystyried bod y sefyllfa gyfreithiol, fel y'i disgrifir yn adran 1, mewn gwirionedd yn amwys nac yn ansicr o gwbl.

40. Mae'n wir bod rhai tystion wedi awgrymu bod hawliau mordwyo a mynediad hynafol yn bodoli ar bob afon sy'n gorfforol fordwyadwy. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynsail barnwrol sy'n cadarnhau hyn, ac er bod hyn o ddiddordeb i ni wrth ystyried barn y tystion hyn ni allwn, at ddibenion ein hymchwiliad, seilio ein hargymhellion ar safbwynt ynglŷn â'r gyfraith sy'n groes i'r un a dderbynnir yn gyffredinol.

41. Y broblem â’r sefyllfa sydd ohoni yw bod y defnyddwyr dŵr hynny sy’n defnyddio dyfroedd mewndirol lle nad oes unrhyw hawl mordwyo cyhoeddus, a hynny heb ganiatâd perchennog gwely'r afon a/neu hawliau pysgota, mewn gwirionedd yn troseddu oherwydd eu bod yn tresmasu. Yn ogystal â bod yn broblem i dirfeddianwyr, mae hyn hefyd yn broblem i’r rheini y mae’r tirfeddianwyr wedi rhoi hawliau pysgota iddynt.

42. Gall fod yn ddryslyd i ddefnyddiwr dŵr ddynodi pwy y mae’n rhaid ceisio caniatâd oddi wrtho, ac mae’n bosibl y bydd yn rhaid delio â nifer o berchenogion glannau afon a chlybiau pysgota i drafod telerau mynediad i un darn o ddŵr.

43. Nid yw’r broblem yn un ddifrifol ym marn pob tirfeddiannwr neu berchennog hawliau pysgota, ac mae rhai ohonynt yn fodlon i’r dŵr gael ei ddefnyddio ar gyfer hamdden ar ddŵr. Fodd bynnag, mae’r trefniadau hyn yn aml yn anffurfiol ac nid ydynt yn hysbys i lawer nac yn cael cyhoeddusrwydd eang. Hefyd, nid yw’r broblem yn codi ar bob darn o ddŵr mewndirol, gydag ychydig o fannau poblogaidd yn dod yn brif ffocws hamdden ar ddŵr.

44. Meddai Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru:

> “What we do object to most strongly is the unrestricted, unlawful access which is happening at the moment on many Welsh rivers, which involves trespass on a large scale, which has resulted in conflict between user groups, mainly anglers and canoeists, and between riparian owners and canoeists, and which, in many instances, is likely to be ecologically damaging to sensitive areas of these rivers.”

45. Roedd barn Canŵ Cymru ar y sefyllfa’n wahanol, gan ddweud:

> “The reintroduction of recreational paddlesport post World War II saw the emergence of challenges to access to water. At this time the Governing Body for Canoeing was led to believe by riparian owner that agreement was needed to use the water. And acting in good faith this was done. Canoe Wales now recognises that in creating private agreements with private individuals we may have been misled and as a result an unwelcome position over Wales’ natural resources has developed which has been shown by other countries to be unnecessary.”

46. Nid yw'n ymddangos bod y sefyllfa sydd ohoni'n ddichonol a byddai barn ddi-syfl y ddau sefydliad cynrychioliadol yn awgrymu nad oes modd datrys y broblem dan y system bresennol. Mae hefyd yn debygol, i bob golwg, mai gwaethygu fydd y sefyllfa wrth i'r galw am hamdden ar ddŵr gynyddu.

## Effaith defnyddio dŵr ar yr amgylchedd

47. Un maes cynhennus y dygwyd sylw ato yn y dystiolaeth a dderbyniwyd oedd effaith hamdden dŵr ar y amgylchedd.

48. Yn eu papur, dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru:

> "Recreational activities take place throughout the year and may have adverse impacts on the spawning success of individual fish, the quality of the spawning substrate and the survival of eggs. However, there is little empirical scientific evidence, either way, to demonstrate that significant damage does occur as a result of most activities. When water levels are high in a river, simple passage of canoes over spawning areas is likely to pose less of a risk than, for example, an angler, canoeist or swimmer walking in a river for their activity, however even these activities may be negligible compared to the many natural forms of disturbance e.g. during flood conditions."

49. Meddai Cymdeithas Eog a Brithyll Cymru yn eu tystiolaeth:

> "……Dick Shelton whose research into Salmon is revered world wide. His research papers show that irresponsible activities on rivers at spawning time will result in salmon not being able to fulfil their spawning activity. This research has been supported by others and at this precarious time for our wild salmon it would be detrimental to future stocks to allow anything or anybody to disturb salmon during spawning time."

50. Mae pysgota'n cael ei reoleiddio fel nad yw'r tymor pysgota'n ymyrryd â'r amser y mae pysgod yn silio. Mae'n anghyfreithlon pysgota y tu allan i'r tymor dynodedig ar gyfer pob rhywogaeth, er mwyn amddiffyn eu mannau silio a physgod.

51. Mae hamdden ar ddŵr, fel canŵio a rafftio, ar y cyfan yn digwydd dan amodau dŵr uchel gan y byddai perygl o daro'r gwaelod dan amodau dŵr isel. Mae'r lefelau dŵr uchel a ffafrif ar gyfer canŵio'n golygu nad oes rhyw lawer o aflonyddu ar wely'r afon.

52. Roedd mwyafrif y dystiolaeth o ddifrod amgylcheddol a achosir gan hamdden ar ddŵr yn anecdotaidd a daeth o du'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau pysgota.

53. Daeth tystiolaeth o ddiffyg difrod amgylcheddol o enghraifft y Ganolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol y mae rhan fawr ohoni ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n cael ei fonitro'n agos. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o ddifrod amgylcheddol i'r afon na'i phlanhigion a'i hanifeiliaid o ganlyniad i greu'r Ganolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol.

## Rôl cytundebau gwirfoddol

54. Roedd y farn yn amrywio ynglŷn â rôl a gwerth cytundebau mynediad gwirfoddol yn y dystiolaeth a roddwyd i ni.

55. Mae cytundebau gwirfoddol yn bodoli neu wedi bodoli mewn tri phrif faes:

- mynediad ar draws tir i gyrraedd darn o ddŵr neu lan afon;
- mynediad ar lan afon, yn bennaf at ddibenion pysgota;
- mynediad ar hyd darn o ddŵr.

56. Mae gan y mwyafrif o glybiau pysgota nad ydynt yn berchen ar eu darnau eu hunain o wely afon gytundebau mynediad gwirfoddol â thirfeddianwyr y maent yn pysgota ar eu tir, er mwyn gallu cael mynediad i'r afon. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr hawliau pysgota y maent fel rheol yn eu prydlesu.

57. Mae rhai landlordiaid yn caniatáu mynediad ffurfiol neu anffurfiol i'w dŵr trwy gytundebau gwirfoddol a lunnir fel rheol â grwpiau defnyddwyr dŵr unigol.

58. Tan yn ddiweddar, byddai Canŵ Cymru'n llunio cytundebau mynediad gwirfoddol â thirfeddianwyr ar ran canŵ-wyr o Gymru a'r rheini a fyddai'n dod i Gymru i ddefnyddio darnau o ddŵr Cymru.

59. Roedd llwyddiant cytundebau gwirfoddol a'r canfyddiad ynglŷn â'u llwyddiant yn amrywio yn y dystiolaeth drwyddi draw.

60. Meddai Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru:

> "The current position of government, both Welsh Assembly and Westminster is to support agreed access through local

voluntary access agreements involving all interested parties, landowners/riparian owners, user groups, e.g., anglers and canoeists, even local authorities where relevant. The Federation of Welsh Anglers supports this position, local agreements recognise the rights of landowners and address local requirements and the needs of the respective user groups. Although agreement appertaining to the latter is generally through compromise, it alleviates the conflict which arises through one side seemingly 'having it all' and the other seemingly 'wanting it all', as is the current situation in respect of angling and canoeing."

61. Meddai'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai:

> "Our approach is built on practical action and on building consensus between the different interests on what activities can sensibly take place and when, on the different water locations. As a direct result of Welsh Assembly Government support, we now have new voluntary access agreements on extensive stretches of the Rivers Wye and Usk, and we are looking to build on that through the round table on water access, which is exploring the scope for similar agreements on other main rivers in Wales."

62. Roedd barn defnyddwyr dŵr eraill yn wahanol, fodd bynnag. Meddai Rebecca Cadbury o Glwb Canŵio Arberth:

> "There are two points on the voluntary agreements. There are certain large organisations, such as the one at Llandysul, that can take agreements and they can work. However, for a small club like ours, they are largely irrelevant. Agreements can create confusion about the legal situation, and agreements can simply evaporate."

63. Meddai Kate Rew o'r Gymdeithas Nofio Awyr Agored:

> "We do not think that the agreements would be practicable for swimmers. If you wanted to set up an outdoor swimming club and just swim in the one place, then, clearly, negotiating access is the way to go. However, a lot of it takes place on an ad hoc basis; people roam, they are movable, and, just like people who go for a walk, where swimmers go depends on the weather and the wind direction. I do not see families getting up in the morning, thinking it is a great day and deciding to go for a

swim and then being able to negotiate access so that they can take their kids out. I cannot see that working."

64. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â sut mae cytundebau gwirfoddol yn cael eu plismona a sut gellir eu gorfodi. Roedd pysgotwyr yn poeni nad oedd gan ddefnyddwyr sy'n gwneud gweithgareddau ar ddŵr unrhyw fath o farciau i'w hadnabod fel nad oedd modd nodi unrhyw un a oedd yn torri cytundeb a'i gosbi.

65. Mae gan Sefydliad y Gwy a'r Wysg gytundeb mynediad gwirfoddol cyffredin sy'n rhoi mynediad i bysgotwyr a defnyddwyr dŵr eraill i afonydd Gwy a Wysg ar adegau penodol o'r flwyddyn a dan rai amodau penodol. Rhoddwyd y cytundeb hwn ar waith i ehangu'r darn o afon a oedd yn fordwyadwy y tu hwnt i'w ffiniau mordwyadwy cyfreithiol. Er iddo cael ei sefydlu'n bennaf fel offeryn cadwraeth, mae'n ymddangos bod y cytundebau mynediad ar afonydd Gwy a Wysg yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad.

66. Mae'r cynllun Tir Gofal yn darparu ar gyfer tirfeddianwyr yn caniatáu mynediad ar draws eu tir lle nad oes hawliau tramwy eisoes yn bodoli. Nid yw hyn yn galw am gytundeb ffurfiol ag unrhyw rai o ddefnyddwyr y tir; mae telerau'r cytundeb yn berthnasol i'r rheini sy'n defnyddio'r mynediad oherwydd eu bod, yn syml, yn defnyddio'r mynediad, ac ni lunnir cytundeb ffurfiol, wedi'i lofnodi. Gellid defnyddio model sy'n cyfuno trefniadau mynediad afonydd Gwy a Wysg a threfniadau Tir Gofal o ran tirfeddianwyr yn caniatáu mynediad, a byddai hyn yn datrys llawer o'r materion sy'n ymwneud â mynediad i ddŵr mewndirol.

## Ariannu mynediad, gwaith cynnal a chadw a gwaith amgylcheddol i ddŵr mewndirol ac ar hyd-ddo

67. Rhoddodd llawer o bobl dystiolaeth i ni yn ystod yr ymchwiliad ynglŷn â swm yr adnoddau y mae landlordiaid a buddiannau pysgota'n eu buddsoddi mewn gwaith cadwraeth ar ddyfrffyrdd. Rhoddwyd enghreifftiau o sut mae landlordiaid yn defnyddio arian a godir o renti pysgota i gynnal a chadw a gwella'r dirwedd afonydd, yn ogystal ag arian y mae clybiau pysgota unigol yn ei ddefnyddio i gynnal a chadw cynefinoedd a gwarchod stociau pysgod.

68. Mae incwm o gronfeydd trwyddedau pysgota â gwialen y mae'n orfodol eu prynu'n ariannu plismona trwyddedau pysgota â gwialen ac arferion pysgota.

69. Codwyd tri phrif fater yn ymwneud ag ariannu:

- roedd landlordiaid a buddiannau pysgota wedi buddsoddi llawer o adnoddau mewn cynnal a chadw a gwella amgylchedd afonydd er eu mwynhad eu hunain. Teimlwyd nad oedd defnyddwyr eraill yr afon wedi buddsoddi adnoddau ac felly eu bod yn mwynhau'r afon 'am ddim';
- y byddai caniatáu mwy o fynediad i ddŵr mewndirol ac ar hyd-ddo'n golygu y byddai llai o glybiau pysgota'n buddsoddi adnoddau mewn cynnal a chadw ac y gallai arwain at lai o glybiau pysgota eisiau prydlesu hawliau pysgota y maent o'r farn bod defnyddwyr dŵr eraill yn eu diraddio;
- y dylai rhyw ffurf ar drwyddedu fod yn berthnasol i'r holl ddefnyddwyr afon ac y gellid yna defnyddio'r arian hwnnw i gynnal a chadw dyfrffyrdd er mwynhad pawb.

70. Meddai Clwb Genweirwyr Plu Llanwrfwy yn eu tystiolaeth:

> "We have to purchase an annual rod licence from the Environment Agency to fish any water and have to pay landowners substantial amounts to gain access to the river. In our case our annual membership, in addition to the rod licence, is £375 per annum.
>
> Without angling clubs, such as ours, being prepared to take long fishing leases on our rivers it would be impossible for many landowners to carry out necessary river improvements and maintenance. As a club we also hold regular work parties to clear litter and debris from the river bank to allow everyone to have easy access to the water.
>
> If others are to be granted rights to the river then suitable licensing arrangements and landowner fees should also apply. To allow them to use the same water as anglers without doing so will be clearly unfair. It also absolves them of the responsibility of care for the river."

71. Roedd llawer o'r buddiannau pysgota a rhai o'r defnyddwyr dŵr eraill o blaid system drwyddedu a fyddai'n berthnasol i bob defnyddiwr dŵr, gan ddarparu system atebolrwydd yn ogystal â ffynhonnell incwm.

72. Roedd rhai defnyddwyr dŵr o blaid peidio â chael trwyddedau ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio dŵr mewndirol, gan gynnwys cael gwared ar y drwydded pysgota â gwialen.

73. Roedd rhai defnyddwyr dŵr o blaid cadw pethau fel ag y maent, gan ddadlau y dylai mynediad ar hyd y dŵr fod yn hawl rydd a naturiol a bod trwyddedau pysgota â gwialen a phrydlesi pysgota'n rhan o system reoleiddiol ar gyfer pysgota.

74. Pwysleisiwyd hefyd y swm o arian a ddaw i Gymru yn sgil twristiaeth genweirio – yn ôl amcangyfrif Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru roedd hyn oddeutu £150 miliwn y flwyddyn. Roeddent o'r farn y gallai'r incwm hwn fod dan fygythiad pe bai mwy o ddefnydd ar y dŵr.

## Safon ac argaeledd gwybodaeth am ddefnydd dŵr

75. Un o'r prif faterion a godwyd gan lawer o'r defnyddwyr dŵr nad oeddent yn bysgotwyr oedd diffyg gwybodaeth ddibynadwy, helaeth a chyfoes ynglŷn â pha ddarnau o ddŵr roeddent yn cael eu defnyddio.

76. Awgrymodd nifer o ddefnyddwyr dŵr y dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i wybodaeth ynglŷn â lle roedd trefniadau mynediad ar waith, yn ogystal â gwybodaeth am lefelau dŵr afon ac amodau amgylcheddol eraill. Meddai Andy Shan:

> "What is required is…..
> -a recognised code of conduct for responsible access. This can be provided by WCA/BCU……
> - information from the Environment Agency on river levels. Currently the EA does not provide real time, or near real time river level information on-line to the public (apart from angling sites!). This information is vital to allowing canoeists and kayakers to behave responsibly and only paddle when it is appropriate.
> - information from the Environment Agency on sensitive areas eg spawning grounds, to be avoided at certain times of the year or at certain levels. Clearly there are some areas that they cannot publicise, eg freshwater pearl mussel beds."

77. Soniodd nifer o bobl hefyd am God Mynediad Awyr Agored yr Alban fel enghraifft o arfer da sy'n cael ei ledaenu'n eang trwy wefannau, sefydliadau awyr agored, cyrff a noddir gan y llywodraeth a chwmnïau dŵr. Mae'r cod yn dwyn sylw at hawliau a chyfrifoldebau

pawb sy'n defnyddio'r dŵr ar gyfer hamdden awyr agored yn ogystal â thirfeddianwyr. Mae defnyddwyr dŵr yn yr Alban yn cadw at hwn i raddau helaeth, ac mae'n darparu fframwaith a chanllawiau y gellir eu defnyddio i fesur ymddygiad a allai fod yn aflonyddol.

78. Roedd nifer o dystion o'r farn, pe bai gwybodaeth gyfoes o safon dda a chod ymddygiad yn cael eu cyhoeddi'n eang, byddai hynny'n annog defnyddio dŵr mewndirol yng Nghymru'n fwy cyfrifol ac yn cyfrannu at gynyddu twristiaeth yng Nghymru.

## Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003

79. Soniodd llawer o dystion am Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 fel model ar gyfer deddfwriaeth mynediad y gellid ei fabwysiadu yng Nghymru.

80. Mae Rhan 1 y Ddeddf yn sefydlu hawl i fod ar dir (gan gynnwys dŵr mewndirol) at ddibenion hamdden, dibenion addysgol a rhai dibenion penodol eraill, a hawl i groesi tir. Nid yw'r hawliau'n bodoli oni bai eu bod yn cael eu hymarfer yn gyfrifol. Mae Rhan 1 hefyd yn gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol o ran mynediad ar a thros dir yn eu hardaloedd ac, yn anad dim, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio a mabwysiadu cynllun o lwybrau craidd yn eu hardaloedd.

81. Mae Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban, sy'n amlinellu hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr a thirfeddianwyr, yn ategu'r mynediad y mae'r Ddeddf wedi'i sefydlu. Pwysleisiodd llawer o'r rheini a soniodd am y Ddeddf fel enghraifft o arfer da y rôl allweddol y mae'r cod mynediad yn ei chwarae wrth sicrhau bod pobl yn cadw at delerau'r Ddeddf.

Wrth ystyried y graddau y gellid defnyddio Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 fel model ar gyfer deddfwriaeth yn ymwneud â Chymru, dylid cofio y daeth ei diwygiadau i rym o fewn fframwaith cyfreithiol ar y pryd a oedd yn wahanol iawn i'r fframwaith sy'n berthnasol i Gymru. Yn anad dim, roedd agwedd cyfraith yr Alban o ran mynediad i dir (gan gynnwys afonydd a llynnoedd) heb ganiatâd ffurfiol eisoes yn fwy hael na'r gyfraith tresmasu bresennol yng Nghymru a Lloegr.

# 3. Casgliadau ac argymhellion

82. Mae mor gryf yw'r teimladau rydym wedi dod ar eu traws yn ystod yr ymchwiliad hwn wedi ein synnu ar adegau.

83. Er ein bod wedi ceisio canolbwyntio ar y materion ehangach yn ystod yr ymchwiliad, mae llawer o'r dystiolaeth rydym wedi'i derbyn wedi canolbwyntio ar wrthdaro sydd wedi digwydd.

84. Gwnaethom dderbyn nifer mawr o gyflwyniadau oddi wrth y ddwy ochr ond gwnaeth diffyg amrywiaeth yn y dystiolaeth ein siomi, yn ogystal â'r agweddau negyddol ac weithiau ymosodol a ddangoswyd mewn sawl achos. Cyhuddwyd y pwyllgor hefyd am beidio â rhoi digon o gyfleoedd i bobl leisio'u barn, ac roedd hyn yn siom i ni.

85. Roedd nifer yr ymatebion i'n galw am dystiolaeth yn fwy nag unrhyw ymateb i ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor Cynaliadwyedd, er bod pwnc yr ymchwiliad yn effeithio ar lai o bobl nag unrhyw ymchwiliad arall rydym wedi'i gynnal.

86. Rydym yn ystyried, o'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed, bod y sefyllfa sydd ohoni o ran mynediad i ddŵr mewndirol yn anghynaliadwy a'i bod yn debygol o waethygu â chynnydd yn y galw am weithgareddau cysylltiedig â dŵr.

87. Rydym o'r farn, os rhoddir sylw i'r materion rydym wedi'u trafod uchod a'u datrys mewn modd ymarferol a dichonol, y gall hyn fod o fudd i'r bobl sy'n byw yng Nghymru ac i dwristiaeth Cymru.

88. Mae buddion iechyd yn sgil cyfranogi o hamdden awyr agored, a'r buddion ariannol yn sgil twristiaeth gynyddol, yn ddau o'r prif resymau dros wneud ein hargymhellion.

89. Er ein bod wedi dweud bod y sefyllfa sydd ohoni'n anghynaliadwy, nid ydym o'r farn mai deddfu ar gyfer mynediad rhydd a digyfyngiad i bawb i ddŵr mewndirol yng Nghymru yw'r ateb.

90. Nid ydym o'r farn y gellir mabwysiadu model Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 ar gyfer Cymru yn rhwydd o ystyried y gwahaniaethau sylfaenol a oedd eisoes yn bodoli rhwng y gyfraith ynglŷn â thresmasu yn yr Alban cyn y Ddeddf a'r gyfraith bresennol ynglŷn â thresmasu yng Nghymru.

91. Rydym hefyd yn ymwybodol y byddai cyflwyno hawl mynediad hollgynhwysfawr i ddŵr neu ar hyd-ddo'n dda i fawr o ddim heb hawl ategol mynediad cyffredinol dros dir i gael mynediad i ddŵr.

